**Farming Connect**

**Event Speakers & Bios**

**Mark Lord – Berrys**

mark.lord@berrys.uk.com

Mark joined Berrys in 2017 after having worked at Lloyds Bank for 36 years, of which more than 25 years were spent working in the agricultural sector. Mark chose to specialise in agriculture because of the areas he has been based in – North Wales and Shropshire – and the many diverse enterprises and opportunities farming and the rural economy present. His wealth of experience comes from his time as a Senior Agricultural Manager which involved supporting clients with investment opportunities, diversifying their businesses and troubleshooting when things do not work as expected. Mark's role for Berrys involves working as an Adviser for Farming Connect, delivering 1 to 1 advice by appraising and reviewing clients' businesses with full supporting analysis of their historic financial performance and supporting their future opportunities. Mark is also a member of the British Institute of Agricultural Consultants (BIAC) and on the organising committee for their annual Welsh Conference.

Ymunodd Mark â Berrys yn 2017 ar ôl gweithio gyda Banc Lloyds am 36 mlynedd, ac o'r 36 mlynedd, bu'n gweithio yn y sector amaeth am 25 mlynedd. Dewisodd Mark arbenigo mewn amaethyddiaeth oherwydd yr ardaloedd y bu'n gweithio - Gogledd Cymru a Swydd Amwythig - a'r nifer o wahanol fentrau a chyfleoedd sy'n codi ym myd amaeth a'r economi wledig. Daw ei brofiad helaeth o'i amser fel Uwch Reolwr Amaethyddol a oedd yn cynnwys cynorthwyo cleientiaid gyda chyfleoedd i fuddsoddi, arallgyfeirio eu busnesau a datrys problemau pan nad yw pethau'n gweithio fel y disgwylir iddynt wneud. Mae rôl Mark gyda Berrys yn cynnwys gweithio fel Ymgynghorydd i Cyswllt Ffermio, darparu cyngor un i un trwy werthuso ac adolygu busnesau cleientiaid gyda dadansoddiad llawn o'u perfformiad ariannol hanesyddol a'u cynorthwyo gyda chyfleoedd yn y dyfodol. Mae Mark hefyd yn aelod o Sefydliad Ymgynghorwyr Amaethyddol Prydain (BIAC) ac mae'n aelod o'r pwyllgor trefnu ar gyfer eu Cynhadledd Cymraeg flynyddol.

**Helen Ovens – ADAS**

helen.ovens@adas.co.uk

Helen is an ADAS consultant with 25 years' experience of rural development and agricultural systems. She is an approved advisor for the Farming Connect programme, with a specialism in farm level carbon auditing and action planning to manage emissions, working on Welsh Government, HCC, AHDB and Defra contracts. Helen recently brokered projects for the EIP programme in Wales on topics such as animal health and livestock tracking in extensive grazing systems. Recent work includes an evaluation of the HCC hill flock genetic improvement programme and modelling suckler herd emissions in Wales. Helen is a Welsh speaker and studied at UEA Norwich for sustainable agricultural system and SAC Aberdeen for crop protection. She is one of the first people to achieve the BASIS farm emissions and carbon management advice qualification in the UK, as well as being BASIS soil and water qualified.

Mae Helen yn Ymgynghorydd ADAS gyda 25 mlynedd o brofiad ym maes systemau amaethyddol a datblygiad gwledig. Mae hi'n ymgynghorydd cymeradwy ar gyfer rhaglen Cyswllt Ffermio, gydag arbenigedd mewn archwilio lefel carbon ar y fferm a chynllunio camau gweithredu i reoli allyriadau, gan weithio ar gontractau Llywodraeth Cymru, HCC, AHDB a Defra. Yn ddiweddar bu i Helen drefnu prosiectau ar gyfer y rhaglen Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru ar destunau megis iechyd anifeiliaid ac olrhain da byw mewn systemau pori helaeth. Mae ei gwaith diweddar yn cynnwys gwerthuso rhaglen gwella geneteg diadell fynydd HCC a modelu allyriadau buches sugno yng Nghymru. Mae Helen yn siarad Cymraeg a bu iddi astudio system amaethyddol gynaliadwy yn yn UEA Norwich a gwarchod cnydau yn SAC Aberdeen. Helen yw un o'r bobl gyntaf i ennill cymhwyster

cyngor ar allyriadau a rheoli carbon ar y fferm yn y DU BASIS, yn ogystal â meddu ar gymhwyster pridd a dŵr BASIS.

**Toni Borella – Green Up Farm**

hello@greenupfarm.co.uk

With a background working in the tech sector, Toni always knew she had passion for nutritious, fresh and local products. From summer holidays in Pembrokeshire as a child to moving into the area permanently with her husband in 2019, the beautiful Pembrokeshire inspired Toni to explore more environmentally friendly methods of food production. She co-founded Green Up Farm in November 2021 and since receiving invaluable support and mentorship from Cywain in April 2022, they are now rapidly expanding to become the first hydroponic vertical farm based in Pembrokeshire, producing high-quality, fresh microgreens, herbs and specialty crops. Green Up Farm are currently working with some of the best chefs, restaurants, cafes and gastro-pubs in and around Pembrokeshire, delivering quality crops which add colours and flavours to already tantalising dishes.

Gyda chefndir yn gweithio yn y sector technoleg, roedd Toni bob amser yn gwybod bod ganddi angerdd am gynnyrch maethlon, ffres a lleol. O wyliau'r haf yn Sir Benfro pan oedd hi'n blentyn i symud i'r ardal yn barhaol gyda'r gŵr yn 2019, ysbrydolodd prydferthwch Sir Benfro Toni i archwilio dulliau mwy ecogyfeillgar o gynhyrchu bwyd. Bu iddi gyd-sefydlu Green Up Farm ym mis Tachwedd 2021, ac ers iddynt gael cymorth a mentoriaeth amhrisiadwy gan Cywain ym mis Ebrill 2022, maent bellach yn ehangu'n gyflym i fod y fferm fertigol hydroponeg gyntaf yn Sir Benfro, gan gynhyrchu perlysiau, cnydau arbenigol a chynnyrch micro-wyrdd ffres o safon. Ar hyn o bryd, mae Green Up Farm yn gweithio gyda rhai o'r cogyddion, bwytai, caffis a thafarndai gastro gorau yn Sir Benfro a'r cyffiniau, gan ddarparu cnydau o safon sy'n ychwanegu lliwiau a blas at brydau sydd eisoes yn brydau dymunol.

**Dr. Chris Mann – Bannamann**

Grant.crawford@bennamann.com

Dr. Chris Mann is the co-founder, Chairman and Chief Technology Officer at Bennamann, a company leading a clean energy revolution in farming. Chris qualified as an applied physicist working in the space sector developing sensors used to establish the presence of the ozone hole and the early onset of climate change. Since Bennamann was founded in 2011, Chris has been fully committed to developing fugitive methane gas capture technology. He knows the huge disruptive potential this innovative technology has to reduce greenhouse gas emissions, providing farmers with more on-farm energy independence and the potential for a diversified new income stream. Bennamann is excited about sharing their technology with the Welsh farming community through the Innovation and Diversification Wales event.

Dr Chris Mann yw cyd-sylfaenydd, Cadeirydd a Phrif Swyddog Technoleg Bennamann, cwmni sy'n arwain chwyldro ynni glân ym myd amaeth. Cymhwysodd Chris fel ffisegydd cymhwysol a bu’n gweithio yn y sector gofod gan ddatblygu synwyryddion a ddefnyddir i sicrhau presenoldeb y twll osôn a dyfodiad cynnar newid hinsawdd. Ers sefydlu Bennamann yn 2011, mae Chris wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu technoleg dal nwy methan ffo. Mae’n gwybod y potensial aflonyddgar enfawr sydd gan y dechnoleg arloesol hon i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan roi mwy o annibyniaeth o ran ynni ar y fferm i ffermwyr a’r potensial ar gyfer ffrwd incwm newydd amrywiol. Mae Bennamann yn edrych ymlaen at rannu eu technoleg gyda’r gymuned amaethyddol yng Nghymru drwy ddigwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru.

**Anna Bowen – The Anderson Centre**

abowen@theandersoncentre.co.uk

Anna grew up on a Welsh dairy farm and studied International Equine and Agricultural Management at the Royal Agricultural University, followed by a Masters in Sustainable Agriculture and Food Security. She is currently undertaking a postgraduate certificate at the University of Aberystwyth. She was awarded a 2021 Nuffield Scholarship looking at options for improving the ethics of dairy farming, focusing on options for dairy beef, the feasibility of cow calf contact dairying, and cross-industry lessons in social licence from horse racing. In November 2023 she will present her findings at the annual Nuffield Conference. Her scholarship is sponsored by the Elizabeth Creake Charitable Trust. Anna now lives in Ceredigion where she contract farms a herd of 300 spring block calving dairy cows with her partner. Outside of the farm, Anna works full-time as a farm business consultant for The Andersons Centre and is a freelance writer and independent mobility scorer.

Cafodd Anna ei magu ar fferm laeth yn Sir Gaerfyrddin a bu iddi astudio Rheolaeth Ryngwladol Ceffylau ac Amaethyddol yn y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol, ac yna bu iddi gwblhau gradd Meistr mewn Amaethyddiaeth Gynaliadwy a Sicrwydd Bwyd. Mae hi ar hyn o bryd yn dilyn tystysgrif ôl-raddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Nuffield iddi yn 2021, ble bu'n edrych ar opsiynau ar gyfer gwella moeseg ffermio llaeth, gan ganolbwyntio ar opsiynau ar gyfer bîff o wartheg llaeth, dichonoldeb llaetha cyswllt rhwng lloi a buwch, a gwersi ar draws y diwydiant mewn trwydded gymdeithasol rasio ceffylau. Ym mis Tachwedd 2023, bydd Anna'n cyflwyno ei chanfyddiadau yng Nghynadledd Blynyddol Nuffield. Mae ei hysgoloriaeth yn cael ei noddi gan Ymddiriedolaeth Elusennol Elizabeth Creake. Mae Anna bellach yn byw yng Ngheredigion lle mae hi'n ffermio buches o 300 o wartheg godro sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn gyda'i phartner. Pan nad yw hi ar y fferm, mae Anna'n gweithio'n llawn amser fel ymgynghorydd busnes fferm i The Andersons Centre ac mae'n awdur llawrydd ac yn sgoriwr symudedd annibynnol.

**Ioan Humphreys – @that_welsh_farmer**

ioanh@hotmail.com

You may recognise Ioan from his online videos on the realities of farming in Wales, many of which have taken the internet by storm. Ioan has managed his family’s upland and hill farm since 2013. The 500-acre farm has been in the family since 1903, and now has 850 ewes (Welsh Mountain, Welsh Speckled Face, Texel, Suffolk and Welsh Mules), 20 cattle (Hereford, Angus and British Blue suckler cows with a pedigree Limousin bull) and more recently, Ioan has become a poultryman and added 32,000 laying hens to the farm in 2019. In addition, the farm has also added a small holiday business of three log cabins on the farm. Ioan’s ongoing focus is to help educate the nation on why British agriculture is so important.

Efallai y byddwch chi’n adnabod Ioan o’i fideos ar-lein ar realiti'r byd amaeth yng Nghymru, gyda llawer ohonyn nhw wedi cymryd y rhyngrwyd yn ddirybudd. Mae Ioan wedi bod yn rheoli fferm fynydd ac ucheldir ei deulu ers 2013. Mae’r fferm 500 erw wedi bod yn y teulu ers 1903, a bellach mae ganddo 850 o famogiaid (Mynydd Cymreig, Penfrith Cymreig, Texel, Suffolk a Miwl Cymreig), 20 o wartheg (Henffordd , buchod sugno Angus a British Blue gyda tharw Limousin pur) ac yn fwy diweddar, mae Ioan wedi dod yn ffermwyr sy'n cadw dofednod ac wedi ychwanegu 32,000 o ieir i’r fferm yn 2019. Yn ogystal, mae'r fferm hefyd wedi ychwanegu busnes gwyliau bach o dri chaban

pren ar y fferm. Ffocws parhaus Ioan yw helpu i addysgu'r genedl ynghylch pam mae amaethyddiaeth ym Mhrydain mor bwysig.

**Edward Morgan – Castell Howell**

edward.morgan@chfoods.co.uk

Born and raised on a mixed farm in Carmarthenshire, Edward has over 35 years' experience working in the food sector and has been with Castell Howell for 22 years. He leads numerous supply chain projects, including a recent collaborative 'Welsh Veg to Welsh Schools' initiative with Lantra and Farming Connect.

Wedi ei eni a'i fagu ar fferm gymysg yn Sir Gaerfyrddin, mae gan Edward dros 25 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y sector bwyd ac mae wedi bod yn gweithio gyda Castell Howell am 22 mlynedd. Mae'n arwain nifer o brosiectau cadwyn gyflenwi, gan gynnwys menter gydweithredol ddiweddar, 'Llysiau o Gymru i Ysgolion Cymru' gyda Lantra a Cyswllt Ffermio.

**David Selwyn – Landker**

david@landker.co.uk

In 2006, David joined Landsker Business Solutions Ltd. With a blend of theoretical knowledge and real business experience, he has been able to offer focused and effective customer facing consultancy support to a number of industries and disciplines. This has resulted in supporting the local SME Welsh economy (including many farmers looking to diversify) through the creation and safeguarding of jobs, improving infrastructure, increasing revenue and/or profitability, gaining public, private and charity funding, and making strategic and operational improvements. David is passionate about developing realistic plans to support businesses to grow and then helping to turn these plans into tangible projects that help drive business profitability and secure business sustainability. Landsker are delighted to be funding partners with the Development Bank of Wales in relation to their Social Fund.

Ymunodd David â Landsker Business Solutions Ltd yn 2006. Gyda chymysgedd o wybodaeth ddamcaniaethol a phrofiad busnes go iawn, mae wedi gallu cynnig cymorth ymgynghoriaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i nifer o ddiwydiannau a disgyblaethau. Mae hyn wedi arwain at greu a diogelu swyddi, gwella isadeiledd, cynyddu refeniw a/neu broffidioldeb, ennill cyllid cyhoeddus, preifat a chyllid gan elusennau, a gwneud gwelliannau strategol a gweithredol. Mae David yn frwd dros ddatblygu cynlluniau realistig i gynorthwyo busnesau i ddatblygu ac yna helpu i droi'r cynlluniau hyn yn brosiectau diriaethol sy'n helpu i lywio proffidioldeb y busnes a sicrhau cynaliadwyedd y busnes. Mae Landsker yn falch iawn eu bod yn ariannu partneriaid gyda Banc Datblygu Cymru mewn perthynas â'u Cronfa Gymdeithasol.

**Dilwyn Evans – Clarkson's Farm**

dilevans@gmail.com

Dilwyn Evans was brought up on a 67acre farm in Llanddewi Brefi, Cardiganshire. The farm had 29 dairy cows, eight sows and was sufficient to bring up a family of four children in the seventies and

eighties. His upbringing meant that Dilwyn always had a keen interest in farming and agriculture, which led to going to the University of Edinburgh to study veterinary medicine. He qualified in 1986 and after spending six months in Malawi on a project studying cattle dipping to avoid tick borne diseases, joined a mixed practice in Lechlade, Gloucestershire. After spells working as a mixed vet in Mold and Kington, returned to Lechlade. Recently, Dilwyn has been involved with Clarkson's Farm, a series on Amazon Prime, following Jeremy Clarkson farming his 1000 acre farm in the Cotswolds, and his attempts to diversify and open a farm shop and restaurant.

Cafodd Dilwyn Evans ei fagu ar fferm 67erw yn Llanddewi Brefi, Sir Aberteifi. Roedd y fferm yn cynnwys 29 o wartheg llaeth, wyth hwch ac roedd yn ddigon i fagu teulu o bedwar plentyn yn y saithdegau a'r wythdegau. O ganlyniad i'w fagwraeth, roedd gan Dilwyn bob amser ddiddordeb mawr ym myd amaeth ac amaethyddiaeth, a bu iddo fynd i Brifysgol Caeredin i astudio milfeddygaeth. Cymhwysodd yn 1986 ac ar ôl treulio chwe mis ym Malawi ar brosiect yn astudio dip gwartheg i osgoi clefydau a gludir gan drogod, ymunodd â phractis cymysg yn Lechlade, Swydd Gaerloyw. Ar ôl cyfnodau'n gweithio fel milfeddyg cymysg yn yr Wyddgrug a Cheintun, bu iddo ddychwelyd i Lechlade. Yn ddiweddar, mae Dilwyn wedi bod yn rhan o 'Clarkson's Farm', sef cyfres ar Amazon Prime, sy'n dilyn Jeremy Clarkson wrth iddo ffermio ei fferm 100 erw yn y Cotswolds, a'i ymdrechion i arallgyfeirio ac agor siop fferm a bwyty.

**Mandy Watkins – Space Like This**

mandy@spacelikethis.co.uk

With a degree in business and sociology, a diploma in professional interior design and a stint working for an interior designer in Cheshire, she went on to establish Mandy Watkins Interiors in 2008 and launched Space Like This in 2013. Space Like This is a leading design studio that creates unique and detailed interiors for commercial projects and residential homes. With her ever-evolving obsession for all things interiors, Mandy Watkins has built her business to mirror her deep passion for stylish spaces. Her belief in offering a stellar service that helps people make the most out of their space is reflected in all her projects. With over 16 years of experience as an interior designer, Mandy has a strong mix of domestic and commercial clients and has built a local and loyal following. Mandy's delicate eye for detail and decisive approach has helped create the strong reputation that the name has today.

Gyda gradd mewn busnes a chymdeithaseg, diploma mewn cynllunio mewnol proffesiynol a chyfnod yn gweithio fel cynllunydd tai yn Sir Gaer, fe aeth ymlaen i sefydlu Mandy Watkins Interiors yn 2008 ac yna lansiodd Space Like This yn 2013. Mae Space Like This yn stiwdio dylunio blaenllaw sy'n creu deunydd y tu mewn manwl ac unigryw ar gyfer prosiectau masnachol a chartrefi preswyl. Gyda'i obsesiwn i ddatblygu o hyd, mae Mandy Watkins wedi adeiladu ei busnes i adlewyrchu ei angerdd am ofodau trwsiadus. Mae ei meddylfryd y dylai gynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf sy'n helpu pobl i wneud y mwyaf o'u gofod yn cael ei adlewyrchu yn ei holl brosiectau. Gyda dros 16 mlynedd o brofiad fel cynllunydd tai, mae gan Mandy gymysgedd cryf o gleientiaid domestig a masnachol ac mae wedi meithrin perthnasau lleol a ffyddlon. Mae ei llygaid craff ac ymagwedd bendant wedi helpu i greu'r enw da sydd ganddi heddiw.

Richard Evans – Welsh Government

richard.evans@gov.wales

Richard Evans works in the Agriculture, Sustainability and Development Division within Welsh Government with responsibility for developing and managing agricultural support schemes. The current offer supports farmers as they respond to market changes, build resilience into their businesses and adapt to climate change and decarbonisation commitments. The support also prepares farmers for entry into the Sustainable Farming Scheme from 2025.

Mae Richard Evans yn gweithio yn Is-adran Amaethyddiaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu, Llywodraeth Cymru, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli cynlluniau cymorth amaethyddol. Mae'r cynnig cyfredol yn cynorthwyo ffermwyr wrth iddynt ymateb i newidiadau yn y farchnad, datblygu gwytnwch yn eu busnesau ac addasu i newid hinsawdd ac ymrwymiadau datgarboneiddio. Mae'r cymorth hefyd yn paratoi ffermwyr ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2025.

**John Morris – Welsh Farmhouse**

johngmorris53@gmail.com

John and his family own a 70-acre organic farm near Crickhowell which over the years has diversified into seven enterprises, including ‘Welsh Farmhouse Apple Juice’. As a small producer based in rural Wales, the family were thrilled when the then Prince Charles first asked them to press and bottle apple and pear juices from fruit picked at his royal estates. Following a royal visit to the farm a few years later, they became one of the smallest food and drink companies in the world to be honoured with the Royal Warrant. John will be a familiar face to Countryfile viewers and is a passionate advocate for increasing horticulture production in Wales. He is also a director for Our Food 1200.

Mae John a'i deulu'n berchen ar fferm organig 70erw ger Crucywel, sydd wedi arallgyfeirio i saith menter dros y blynyddoedd, gan gynnwys 'Welsh Farmhouse Apple Juice’. Fel cynhyrchwyr bach yng nghefn gwlad Cymru, roedd y teulu wrth eu bodd pan ofynnodd Tywysog Cymru iddynt wasgu sudd afal a gellyg o ffrwythau a gesglir ar ei ystadau brenhinol a'u rhoi mewn potel. Yn dilyn ymweliad brenhinol â'r fferm ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, bu iddynt ddod yn un o'r cwmnïau bwyd a diod lleiaf yn y byd i gael eu hanrhydeddu â Gwarant Frenhinol. Bydd John yn wyneb cyfarwydd i wylwyr Countryfile ac mae'n eiriolwr brwd dros gynyddu cynnyrch garddwriaethol yng Nghymru. Mae hefyd yn gyfarwyddwr Ein Bwyd 1200.

**Dave Oates – Farm for Nature**

dave-oats@hotmail.co.uk

Rosuick Organic Farm is a traditional farmstead in the heart of the Cornish Lizard peninsula. Since the 1700s, the farm has been home to the Oates family who manage the farm on a commercial basis but also with a strong environmental ethos. An advocate of regenerative farming practices, Dave firmly believes that farming can have a positive impact on the environment, both increasing biodiversity and carbon capture at the same time as producing healthy, nutritious food. In terms of diversification, Rosuick has many enterprises both past and present, including a camel trekking business, farm shop, café and open farm, wedding and events venues, holiday cottages, agricultural research/trial projects, glamping, commercial workshop rentals, land consultancy, agroforestry, agricultural contracting, farm tours, educational visits including school and care farm, and inclusive events for people with additional needs in the community. Rosuick farm aims to connect people with food, farming and nature.

Mae fferm organig Rosuick yn fferm draddodiadol yng nghalon Cornish Lizard peninusula. Mae'r fferm wedi bod yn gartref i'r teulu Oates ers yr 1700au. Maent yn rheoli'r fferm ar sail fasnachol ond hefyd gydag ethos amgylcheddol cryf. Fel eiriolwr ar gyfer arferion ffermio adfywiol, mae Dave yn credu y gall ffermio gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan gynyddu bioamrywiaeth a dal a storio carbon wrth gynhyrchu mwy iach, maethlon ar yr un pryd. O ran arallgyfeirio, mae gan Rosuick sawl menter, yn awr ac yn flaenorol, gan gynnwys busnes trecio ar gamel, siop fferm, caffi a fferm agored, lleoliadau priodasau a digwyddiadau, bythynnod gwyliau, prosiectau ymchwil/treial amaethyddol, glampio, rhentu gweithdy masnachol, ymgynghoriaeth tir, amaethgoedwigaeth, contractio amaethyddol, teithiau o amgylch y fferm, ymweliadau addysgol gan gynnwys ysgolion a ffermydd gofal a digwyddiadau cynhwysol ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol yn y gymuned. Mae fferm Rosuick yn ceisio cysylltu pobl â bwyd, amaeth a natur.

**Philip Hughes – Ekogea UK Limited**

philip.hughes@ekogea.co.uk

As Member of the Royal Institute of Chartered Surveyors (Rural), Fellow of the Association of Agricultural Valuers, Nuffield Farming Scholar (NSch) and BSc (Hons) in Rural Enterprise and Land Management, Philip has the skills and track record of developing and growing successful businesses. Philip works closely with clients and stakeholders to ensure best outcomes, equally focused on product development as commercial solutions, delivered in a time sensitive manner. Philip led the work for Ekogea UK with a commitment in 2017 to build a 'trial' 200kW AD plant at his family farm, Hendwr, to demonstrate the effectiveness of BioComplex with great success.

Fel Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (Gwledig), Cymrawd Cymdeithas y Priswyr Amaethyddol, Ysgolhaig Ffermio Nuffield (NSch) a BSc (Anrh) mewn Menter Wledig a Rheoli Tir, mae gan Philip y sgiliau a'r profiad o ddatblygu a thyfu busnesau llwyddiannus. Mae Philip yn gweithio'n agos gyda chleientiaid a rhanddeiliaid i sicrhau'r canlyniadau gorau, sy'n canolbwyntio'n gyfartal ar ddatblygu cynnyrch a datrysiadau masnachol, wedi'u darparu mewn modd sy'n sensitif i amser. Arweiniodd Philip y gwaith ar gyfer Ekogea UK gydag ymrwymiad yn 2017 i adeiladu peiriant treulio anaerobig 200kW OC fel 'treial' ar ei fferm deuluol, Hendwr, i ddangos effeithiolrwydd BioComplex yn llwyddiannus iawn.

**Chris Brooks – Westflght Renewable**

chris.brooks@westflight.co.uk

Having been developing off-grid electrical systems for remote Welsh hill farms since the 1960s, Chris Brooks is the founder and managing director of Westflight Ltd. who design and install renewable energy systems specifically in the agricultural sector across Wales. The organisation has built a strong reputation for engineering and innovation with renewable energy technologies including wind, solar and especially small scale hydro. Projects are varied, from small off-grid systems for remote farms or glamping sites to large scale farmer owned commercial projects which generate electricity as an alternative revenue source. Initially qualified as an agricultural engineer and with a long history in mechanical and electrical engineering, Chris also farms on a small hill farm in mid Wales.

Ar ôl bod yn datblygu systemau trydanol oddi ar y grid ar gyfer ffermydd mynydd anghysbell Cymru ers y 1960au, Chris Brooks yw sylfaenydd a rheolwr gyfarwyddwr Westflight Ltd. sy'n dylunio ac yn gosod systemau ynni adnewyddadwy yn benodol yn y sector amaethyddol ledled Cymru. Mae'r sefydliad wedi adeiladu enw da am beirianneg ac arloesi gyda thechnolegau ynni adnewyddadwy gan gynnwys gwynt, solar ac yn enwedig ynni hydro ar raddfa fach Mae prosiectau'n amrywio, o systemau bach oddi ar y grid ar gyfer ffermydd anghysbell neu safleoedd glampio i brosiectau masnachol ar raddfa fawr sy'n eiddo i ffermwyr sy'n cynhyrchu trydan fel ffynhonell incwm arall. Wedi cymhwyso i ddechrau fel peiriannydd amaethyddol a gyda hanes hir mewn peirianneg fecanyddol a thrydanol, mae Chris hefyd yn ffermio ar fferm fynydd fechan yng nghanolbarth Cymru.

**Sioned Davies – Oxbury Bank**

sioned.davies@oxbury.com

Sioned grew up on her family's beef and sheep farm in mid Wales, she then went on to study Agri-Food Marketing with Business Studies at Harper Adams University. Having joined Oxbury on the graduate scheme in 2020, she then completed rotations within the Credit and Risk, Sales and Marketing teams. After completing a six-month sabbatical studying agriculture and agricultural practices in north and south America, Sioned settled into her current role at Oxbury which consists of developing, launching and managing new products. Sioned is passionate about getting young farmers and new entrants into the industry, and one of these products includes Oxbury New Gen, a product designed specifically for new entrants to agriculture.

Cafodd Sioned ei magu ar fferm bîff a defaid ei theulu yng nghanolbarth Cymru, yna aeth ymlaen i astudio Marchnata Bwyd-Amaeth gydag Astudiaethau Busnes ym Mhrifysgol Harper Adams. Ar ôl ymuno ag Oxbury ar y cynllun i raddedigion yn 2020, cwblhaodd gylchdroadau o fewn y timau Credyd a Risg, Gwerthu a Marchnata. Ar ôl cwblhau cyfnod sabothol o chwe mis yn astudio amaeth ac arferion amaethyddol yng ngogledd a de America, ymgartrefodd Sioned i'w rôl bresennol yn Oxbury sy'n cynnwys datblygu, lansio a rheoli cynnyrch newydd. Mae Sioned yn frwd dros gael ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant, ac mae un o'r cynhyrchion hyn yn cynnwys Oxbury New Gen, cynnyrch sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector amaethyddol.

Huw Tudor – Oxbury Bank

huw.tudor@oxburybank.com

Huw Tudor was brought up on the family's beef and sheep farm at Llysun, Llanerfyl and graduated from Aberystwyth University having studied Agriculture with Business Studies. Over his career, Huw has had various roles, from ADAS's farm business consultant to working as one of the orginal Agrisgop facilitators with Farming Connect. He later moved into agriculture finance working as an agricultural manager for Barclays Bank, which followed into a similar role with HSBC in Mid Wales. His current role, which he has been in since 2021, is with Oxbury Bank as a senior agricultural manager for Wales. Huw has been involved and assisted many new and innovative diversifications over the years, helping to gain finance for farming customers to enable them to successfully grow their business. This includes renewables, dairy conversion, poultry conversion and tourism opportunities.

Cafodd Huw Tudor ei fagu ar fferm bîff a defaid y teulu yn Llysun, Llanerfyl a graddiodd o Brifysgol Aberystwyth ar ôl astudio Amaeth gydag Astudiaethau Busnes. Yn ystod ei yrfa, mae Huw wedi ymgymryd â swyddi gwahanol, o ymgynghorydd busnes fferm ADAS i weithio fel un o hwyluswyr gwreiddiol Agrisgop gyda Cyswllt Ffermio. Yn ddiweddarach symudodd i faes cyllid amaethyddol gan weithio fel rheolwr amaethyddol i Fanc Barclays, a ddilynodd i rôl debyg gyda HSBC yn y Canolbarth. Ei rôl bresennol, y mae wedi bod ynddi ers 2021, yw uwch reolwr amaethyddol i Gymru gyda Banc Oxbury. Mae Huw wedi bod yn ymwneud â sawl prosiect arallgyfeirio ac mae wedi cynorthwyo llawer o brosiectau arallgyfeirio newydd ac arloesol dros y blynyddoedd, gan helpu i ennill cyllid i gwsmeriaid ym myd amaeth i'w galluogi i dyfu eu busnes yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys ynni adnewyddadwy, trosi i fusnes llaeth, trosi i fusnes dofednod a chyfleoedd twristiaeth.

Iain Cox – Eco Studio

iain@ecostudio.org.uk

Iain Cox's experience is in helping organisations to put sustainability into practice. Over 20 years, he has worked with development agencies, policy makers, leadership teams, SMEs and social enterprises to deliver sustainability projects that generate commercial advantage and new income streams. Picking up awards, informing policy and gaining media coverage along the way. Iain works mainly with land-based organisations across food and farming supply chains in Wales and beyond to develop commercially sound strategies, products and services that deliver measurable environmental and positive social outcomes for their clients. He is an experienced consultant, trainer and business mentor. He has an MSc in Environmental Decision Making and is a qualified practitioner in Carbon and Water Footprinting and Social Impact. He regularly chairs and participates in panel discussions on topics including sustainability, innovation, net zero and the circular economy.

Mae profiad Iain Cox yn cynnwys helpu sefydliadau i roi cynaliadwyedd ar waith. Mae wedi gweithio gydag asiantaethau datblygu, llunwyr polisi, timau arwain, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol ers dros 20 mlynedd i gyflawni prosiectau cynaliadwyedd sy'n cynhyrchu mantais fasnachol a ffrydiau incwm newydd gan ennill gwobrau, llywio polisi a chael sylw yn y cyfryngau ar hyd y ffordd. Mae Iain yn gweithio'n bennaf gyda sefydliadau sy'n ymwneud â'r tir ar draws cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio yng Nghymru a thu hwnt i ddatblygu strategaethau, cynhyrchion a gwasanaethau sy'n fasnachol gadarn sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol mesuradwy a chymdeithasol cadarnhaol i'w cleientiaid. Mae'n ymgynghorydd, hyfforddwr a mentor busnes profiadol. Mae ganddo MSc mewn Gwneud Penderfyniadau Amgylcheddol ac mae'n ymarferydd cymwys mewn Ôl Troed Carbon a Dŵr ac Effaith Gymdeithasol. Mae'n cadeirio trafodaethau panel ar bynciau gan gynnwys cynaliadwyedd, arloesi, sero net a'r economi gylchol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan ynddynt.

**Ben Williams – Glanbia / Leprinofoods**

benwilliams@glanbiacheese.co.uk

Ben Williams has an expansive career in agriculture delivering R&D and trials of innovative technologies and processes which has led to new Agri-Tech. As well as the foundational research, Ben has been responsible for dissemination and learning across a number of agriculture sectors, including pig and dairy sectors. In particular, Ben's focus has been on data systems and the data that

arises from Agri-Tech, how it can be of value to farmers and the barriers to adoption. With a passion to see the industry succeed in meeting its societal obligations in terms of sustainability, he became the Sustainability Manager for Glanbia Cheese in 2022 (Now Leprino Foods), where he uses behavioural change methods to drive practical solutions for reducing the dairy sector’s impact on the planet.

Mae gan Ben Williams yrfa eang mewn amaethyddiaeth yn darparu ymchwil a datblygu ac arbrofion technolegau a phrosesau arloesol sydd wedi arwain at Dechnoleg Amaeth newydd. Yn ogystal â'r ymchwil sylfaenol, mae Ben wedi bod yn gyfrifol am ledaenu a dysgu ar draws nifer o sectorau amaethyddiaeth, gan gynnwys y sector moch a llaeth. Yn benodol, mae Ben wedi canolbwyntio ar systemau data a’r data sy’n deillio o Dechnoleg Amaeth, sut y gall fod o werth i ffermwyr a’r rhwystrau i fabwysiadu. Gydag angerdd i weld y diwydiant yn llwyddo i gyflawni ei rwymedigaethau cymdeithasol o ran cynaliadwyedd, daeth yn Rheolwr Cynaliadwyedd ar gyfer Glanbia Cheese yn 2022 (Leprino Foods bellach), lle mae’n defnyddio dulliau newid ymddygiad i ysgogi datrysiadau ymarferol ar gyfer lleihau effaith y sector llaeth ar y blaned.

**Josh Riddett – Easy Crypto Hunter**

alexeasycryptohunter@gmail.com

Josh Riddett is an award winning entrepreneur and a leading expert in the UK cryptocurrency space. Founder of Easy Crypto Hunter, Josh has keynoted at cryptocurrency, property, agriculture and energy conferences across the UK. Alongside this, he has been consulting and advising for some of the biggest names in the cryptocurrency industry and mentoring new companies trying to enter the space. Josh’s achievements have culminated in advisory positions for both the EU Parliament and the UK Home Office. Josh has also been featured in leading national and global publications. Josh’s honest and transparent approach to cryptocurrency has established him as the ‘go to guy’ for Cryptocurrency Mining equipment. More recently, Josh featured in ‘Crypto Farmers’, a documentary on the global Documentary+ platform.

Mae Josh Riddett yn entrepreneur sydd wedi ennill gwobrau ac yn arbenigwr blaenllaw mewn cryptoarian yn y DU. Mae Josh, sylfaenydd Easy Crypto Hunter, wedi bod yn allweddol mewn cynadleddau cryptocurrency, eiddo, amaethyddiaeth ac ynni ledled y DU. Ochr yn ochr â hyn, mae wedi bod yn ymgynghori ac yn cynghori ar gyfer rhai o'r enwau mwyaf yn y diwydiant cryptoarian a mentora cwmnïau newydd sy'n ceisio mynd i mewn i'r bwlch hwn. Mae llwyddiannau Josh wedi arwain at swyddi cynghori ar gyfer Senedd yr UE a Swyddfa Gartref y DU.Mae Josh hefyd wedi cael sylw mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a byd-eang blaenllaw. Mae agwedd onest a thryloyw Josh at cryptoarian wedi ei sefydlu fel yr un i droi ato ar gyfer offer Mwyngloddio Cryptoarian. Yn fwy diweddar, ymddangosodd Josh yn ‘Crypto Farmers’, rhaglen ddogfen ar y sianel Documentary+.

**Jon Haines – Agroforestry**

jhaines@soilassociation.org

Jon Haines grew up in Monmouthshire and went on to study Agriculture at the University of Nottingham. Since then, Jon has held a variety of roles within the agriculture and farming sector, including travelling to implement and support farmer projects with herb, spice and tea farmers around the world. He has also helped to set up a pioneering community aquaculture project off the

coast of St Davids, Pembrokeshire. Jon currently works as an Agroforestry Advisor for the Soil Association. Within his role, Jon brings knowledge and experience of both arboriculture and agriculture. He helps farmers and growers with agroforestry technical, marketing, supply chain and networking queries. Jon has a passion for helping farmers best unlock the value of trees in their farming systems. Favouring a collaborative approach to promote and support growers to adapt to the many challenges agriculture is currently facing.

Magwyd Jon Haines yn Sir Fynwy ac aeth ymlaen i astudio Amaeth ym Mhrifysgol Nottingham. Ers hynny, mae Jon wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y sector amaethyddiaeth a ffermio, gan gynnwys teithio i weithredu a chefnogi prosiectau ffermwyr gyda ffermwyr perlysiau, sbeisys a the ledled y byd. Mae hefyd wedi helpu i sefydlu prosiect dyframaethu cymunedol arloesol oddi ar arfordir Tyddewi, Sir Benfro. Ar hyn o bryd mae Jon yn gweithio fel Ymgynghorydd Amaeth-goedwigaeth i'r Soil Association. Yn ei rôl, daw Jon â gwybodaeth a phrofiad o goedyddiaeth ac amaethyddiaeth. Mae'n helpu ffermwyr a thyfwyr gydag ymholiadau technegol, marchnata, cadwyn gyflenwi a rhwydweithio amaeth-goedwigaeth. Mae Jon yn frwd dros helpu ffermwyr i ddatgloi gwerth coed yn eu systemau ffermio yn y ffordd orau. Mae’n ffafrio dull cydweithredol o hyrwyddo a chynorthwyo tyfwyr i addasu i’r heriau niferus y mae amaethyddiaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

**Rhodri Jones – Rural Advisor**

rhodri.jones@ruraladvisor.co.uk

After achieving his LLB (Hons) in Law from Swansea University, Rhodri Jones started his career as a solicitor before moving into the agriculture and farming sector and becoming a leading specialist in an agricultural law firm for over ten years, becoming a Fellow of the Agricultural Law Association. In 2022, Rhodri became the director of Rural Advisor where he specialises in joint ventures and collaboration in farming and utilises his vast experience to provide a holistic succession planning. Rhodri now splits his time between consulting and operating a dairy farm in a family partnership and is passionate about combining his technical and practical experience to help drive the industry forward.

Ar ôl cyflawni ei LLB (Anrh) yn y Gyfraith o Brifysgol Abertawe, dechreuodd Rhodri Jones ei yrfa fel cyfreithiwr cyn symud i'r sector amaethyddiaeth a ffermio a dod yn arbenigwr blaenllaw mewn cwmni cyfreithiol amaethyddol am dros ddeng mlynedd, gan ddod yn Gymrawd Sefydliad Cyfraith Amaethyddol. Yn 2022, daeth Rhodri yn gyfarwyddwr Rural Advisor lle mae’n arbenigo mewn mentrau ar y cyd a chydweithio ym myd ffermio ac yn defnyddio ei brofiad helaeth i ddarparu cynllunio olyniaeth gyfannol. Mae Rhodri bellach yn rhannu ei amser rhwng ymgynghori a gweithredu fferm laeth mewn partneriaeth deuluol ac mae’n frwd dros gyfuno ei brofiad technegol ac ymarferol i helpu i lywio’r diwydiant yn ei flaen.